Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Polisi ar weld ystadegau swyddogol cyn eu rhyddhau

Mae bod yn agored ac yn dryloyw'n greiddiol i'n gwaith ystadegol. Trefnir bod ein hystadegau ar gael i'r holl ddefnyddwyr ar yr un pryd. Mae rhai unigolion yn cael gweld ein hystadegau cyn iddynt gael eu rhyddhau at ddibenion penodol ac mae'r polisi hwn yn egluro'r trefniadau hynny. Wrth ddatblygu'r polisi hwn, rydym wedi ystyried y protocolau perthnasol yn y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Fel Swyddog Arweiniol ar gyfer Ystadegau, ein Cyfarwyddwr Ystadegau a Dadansoddi sy'n gyfrifol am ganiatáu'r gallu i weld ystadegau cyn eu rhyddhau.

# Gweld ystadegau cyn eu rhyddhau at ddibenion cynhyrchu a chyhoeddi

Mae nifer fach o unigolion yn cael gweld ein hystadegau, naill ai tra'u bod yn cael eu cynhyrchu neu ar eu ffurf derfynol, at ddibenion cynhyrchu, sicrhau ansawdd, a chyhoeddi. Mae hyn fel arfer yn gyfyngedig i'n hystadegwyr, tîm cyhoeddi ein gwefan a'n cyfieithwyr.

Mewn rhai sefyllfaoedd, gall unigolion o dimau rheoli data neu bolisi gael gweld rhannau cyfyngedig o'n hystadegau at ddibenion sicrhau ansawdd.
Nid yw unigolion sy'n cael gweld ein hystadegau cyn eu rhyddhau at ddibenion cynhyrchu, sicrhau ansawdd, a chyhoeddi'n cael eu cynnwys ar ein rhestrau o'r rhai sy'n cael gweld ein hystadegau cyn eu rhyddhau.

# Gweld ystadegau ar eu ffurf derfynol cyn eu rhyddhau

Fel cynhyrchydd ystadegau swyddogol, rydym yn rhoi caniatâd cyfyngedig i weld ein hystadegau ar eu ffurf derfynol cyn eu rhyddhau yn ôl y rheolau a nodir yng Ngorchymyn Gweld Ystadegau Swyddogol cyn eu Rhyddhau (Cymru) 2009.

Darperir y gallu i weld ystadegau cyn eu rhyddhau 24 awr cyn cyhoeddi'r ystadegau. Fe'i darperir er mwyn i unigolion allu gwneud sylwadau neu ymateb i ymholiadau ynghylch yr ystadegau ar adeg eu cyhoeddi yn seiliedig ar ddealltwriaeth gywir amdanynt.

Rydym yn cyhoeddi rhestr o sefydliadau a theitlau swyddi sy'n cael gweld ystadegau cyn eu rhyddhau ochr yn ochr â'n cyhoeddiadau ystadegol. Mae'r rhestrau hyn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan gyfyngu i'r eithaf ar nifer yr unigolion.

Wrth ddarparu'r gallu i weld ystadegau cyn eu rhyddhau rydym yn cynnwys datganiad sy'n atgoffa unigolion ynghylch eu cyfrifoldebau, gan gynnwys peidio ag anfon cynnwys yr ystadegau ymlaen nac adrodd ar eu cynnwys cyn iddynt gael eu cyhoeddi. Darperir y gallu i weld ystadegau cyn eu rhyddhau trwy borth cyfnewid ffeiliau diogel, gyda rheolaeth ar ganiatâd i leihau i'r eithaf y risg y byddant yn cael eu rhannu ymlaen yn ddamweiniol.